Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/074/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 9 Ionawr 2018

Annwyl Nick

## Ymateb Llywodraeth Cymru: Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru

Gofynnodd y clercod am fy nghyngor ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Wybodeg y GIG. Rwyf yn deall bod dadl wedi ei threfnu mewn cyfarfod llawn i drafod yr adroddiad.

Ar y cyfan, mae’r ymateb yn gadarnhaol, gyda Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion y Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn amryw o adolygiadau yn ymwneud â gwybodeg y GIG ac mae yn y broses o ddatblygu Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol newydd. Er bod yr ymateb yn canolbwyntio’n bennaf ar yr hyn sy’n cael ei adolygu, mae’n tynnu sylw at ddatblygiadau cadarnhaol, megis mabwysiadu egwyddorion cynllunio Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth. Yn gyffredinol, mae lled a dyfnder yr adolygiadau a’r gweithgaredd yn ymddangos fel pe baent yn adlewyrchu cydnabyddiaeth fod angen newidiadau sylweddol i fynd i’r afael â’r pryderon a nodwyd gan fy rhagflaenydd a’r Pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo diweddariad pellach ymhen chwe mis. Erbyn hynny, dylai’r adolygiadau fod wedi eu cwblhau a bydd Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu’r Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol newydd. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno trefnu sesiwn gyda Llywodraeth Cymru yn ystod mis Gorffennaf 2019 i dderbyn rhagor o dystiolaeth ar sail y diweddariad hwnnw. Yn ddiamau, bydd ar y Pwyllgor eisiau sicrwydd pellach, yn dilyn yr hyn sydd bellach wedi mynd yn gyfnod hir o adolygu, y bydd Llywodraeth Cymru a’r GIG ehangach yn gweithredu ar fyrder i roi’r adnoddau a’r newidiadau ymarferol yn eu lle fel sydd angen i wella gwybodeg ar draws y system gyfan. Efallai y bydd ar y Pwyllgor hefyd eisiau gwirio gyda Llywodraeth Cymru a yw’n bwriadu cyhoeddi casgliadau ac argymhellion yr adolygiadau neu eu rhannu gyda’r Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor bryderon sylweddol ynghylch diffoddiadau data. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth gymharol, yn dangos a yw nifer/difrifoldeb diffoddiadau data wedi lleihau, fel rhan o'i ddiweddariad ymhen chwe mis.

Yn gywir

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**